


Trin micro-organebau

Wrth weithio gyda micro-organebau, mae'n bwysig nad ydych yn halogi eich gwaith, ac nad yw eich gwaith yn halogi'r amgylchedd.

I wneud hyn, mae gwyddonwyr yn defnyddio techneg aseptic.

Gellir tyfu bacteria a ffyngau ar agar meithrin mewn dysgl Petri, i gynhyrchu plât agar.

1. Dylid diheintio dysglau Petri ac agar meithrin cyn arllwys yr agar.
2. Defnyddir dolen frechu i drosglwyddo bacteria a chaiff ei diheintio cyn ac ar ôl iddi gael ei defnyddio drwy ei thwymo i lefel gwres coch gan ddefnyddio fflam Bunsen.
3. Dylech godi caead y ddysgl Petri ychydig gan fod hyn yn atal micro-organebau o'r aer rhag halogi'r meithriniad ac i'r gwrthwyneb.
4. Ar ôl brechu, dylid defnyddio stripiau o dâp adlynol i gadw clawr y ddysgl Petri yn ei le ac yna ei labelu gyda'r dyddiad.
5. Caiff platiau agar sydd wedi'u brechu eu meithrin mewn labordai ysgolion am 24-48 awr ar dymheredd o 25°C sy'n annog y meithriniad i dyfu heb dyfu pathogenau.
6. Diheintio platiau ac offer ar ôl eu defnyddio.




Cyfrif Micro-organebau

Mae mwy na 200 o gytrefi, tebygol o fod yn clympio gyda'i gilydd, anodd adnabod cytrefi unigol.

Mae **20-200 o gytrefi** ar bob plât yn nifer dibynadwy o gytrefi i'w cyfrif. Tyfodd pob cytref o un bacteriwm sy'n rhoi syniad o faint oedd yn y sampl gwreiddiol.

Dydy **llai na 20 o gytrefi** ddim yn nifer dibynadwy o gytrefi i'w cyfrif.



Rheoli Micro-organebau

Gellir rheoli twf micro-organebau yn ôl tymheredd. Defnyddir y wybodaeth hon ar gyfer storio bwyd.

Storio bwyd	Effaith ar dwf bacteria
Tymheredd yr ystafell	Mae twf bacteria yn afreolus ac yn gyflym
Oergell	Mae'n arafu twf bacteria
Rhwgell	Mae'n atal twf bacteria

Tyfu Micro-organebau - Gellir tyfu ffwng o'r enw Penicillium, sy'n gwneud Penisilin, mewn epleydd fel y dangosir isod:

Mae'r cyfarpar hwn yn rhoi'r amodau gorau i'r microbau dyfu.

- pH optimwm
- Tymheredd optimwm
- Ocsigen
- Maetholion

Mae'r organeb yn tyfu yn yr epleydd ac yn secretu'r gwrthfotig i'r cyfrwng o'i amgylch. Ar ôl magu, mae'r cyfrwng meithrin yn cael ei dynnu, a'i hidlo a'r penisilin yn cael ei echdynnu.